

# YSGOLION CYNRADD DINBYCH-Y-PYSGOD

*Tenby Church in Wales VC Primary School ac*

## *Ysgol Hafan y Môr*

**Buddsoddiad gwerth £8.87 miliwn i gynnwys ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 3-11 oed newydd, ailfodelu hen Ysgol Iau Dinbych-y-pysgod ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 3-11 oed newydd a dymchwel Ysgol Fabanod gwag Dinbych-y-pysgod.**

Yn sgil adolygiad o addysg gynradd a'r ddarpariaeth Gymraeg yn ardal Dinbych-y-pysgod, penderfynwyd cau Ysgol Gymunedol Iau Dinbych-y-pysgod ac Ysgol Fabanod Wirfoddol a Reolir Dinbych-y-pysgod ar 31 Awst 2016. O ganlyniad, sefydlwyd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 3-11 oed newydd (Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Dinbych-y-pysgod) ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 3-11 oed newydd (Ysgol Hafan y Môr) ar 1 Medi 2016.

Symudodd Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Dinbych-y-pysgod i adeilad pwrpasol ar dir wrth ymyl hen Ysgol Iau Dinbych-y-pysgod; cafodd yr hen ysgol hon ei hailfodelu a'i hadnewyddu yn barod i Ysgol Hafan y Môr symud iddi.

Prif resymau'r cynllun a'i fanteision, oedd:

- cryfhau'r ddarpariaeth gynradd a'r cyfleodd i ddisgyblion;
- i'r ysgolion wasanaethu'r gymuned a'r dalgylch;
- cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ymateb i'r galw a ragwelir;
- datblygu ysgolion bro ymhellach;
- mynd i'r afael â niferoedd lleoedd a gofynion at y dyfodol;
- ceisio mwy o effeithiolrwydd a chael at fuddsoddiad a chyllid cyfalaf;
- cydnabod yr hyblygrwydd a'r cyfleodd y mae ysgolion mwy yn eu cynnig;
- archwilio'r goblygiadau i bawb drwy addysg gynradd;
- bod yr Ysgolion Babanod ac Iau yn rhai dwy ffrwd o ran eu categori iaith; roedd hyn yn golygu bod ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn;
- cyflawni gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer datblygu dysgu yn y Gymraeg. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol canlynol, sef cyfle a gallu i bawb ddysgu Cymraeg a hybu'r safonau uchaf;

- cyrraedd targed yr Awdurdod yn ei Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth yn ardal Dinbych-y-pysgod, a;
- sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i'r holl blant y mae eu rhieni/gwarcheidwaid eisiau iddynt gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

<b>GWYBODAETH ALLWEDDOL</b>	
<b>LLEOLIAD</b>	Heol Heywood, Dinbych-y-Pysgod, Sir Benfro, SA70 8BZ
<b>CATEGORïAU</b>	<p><b>Hafan y Môr</b> – Cymunedol</p> <p><b>Tenby CiW VC Primary</b> – Mae'r ysgol yn un Wirfoddol a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae gan yr ysgol gymeriad crefyddol sydd yn cydymffurfio ag athrawiaethau'r Eglwys yng Nghymru, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Paragraff 3 Atodlen 19 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.</p>
<b>YSTODAU OEDRAN</b>	3-11
<b>CATEGORïAU IAITH</b>	<p><b>Tenby CiW VC Primary</b> – Cyfrwng Saesneg (EM) Cyfnod Sylfaen – trwy cyfrwng y Saesneg. CA2 – Cymraeg i'w ddysgu fel ail iaith. Mae llai na 20% o'r addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir yng ngwaith yr ysgol o ddydd i dydd – defnyddir rhywfaint o Gymraeg fel iaith cyfathrebu â disgyblion i wella'r gallu i ddefnyddio Cymraeg bob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni naill ai yn Saesneg neu yn y ddwy iaith.</p> <p><b>Hafan y Môr</b> – Cyfrwng Cymraeg (WM) Cyfnod Sylfaen – trwy cyfrwng y Gymraeg. CA2 – o leiaf 70% o addysgu trwy cyfrwng y Gymraeg. Y Gymraeg yw iaith cyfathrebu â disgyblion ac iaith gwaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn y ddwy iaith.</p>
<b>CAPASITI</b>	Tenby CiW VC Primary – 318 Hafan y Môr - 210
<b>RHIFAU DERBYN</b>	Tenby CiW VC Primary – 45 Hafan y Môr - 30
<b>NIFER Y LLEOEDD MEITHRIN</b>	Tenby CiW VC Primary – 45 llawn amser

	Hafan y Môr – 30 llawn amser
<b>TREFNIADAU DERBYN</b>	Cyngor Sir Penfro yw Awdurdod Derbyn yr ysgol. Mae'r polisi derbyn a meinir prawf y Cyngor yn berthnasol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw ac ni fydd modd dewis pwy fydd yn cael y ddarpariaeth ar sail naill ai gallu neu gymhwyster.
<b>TRAFNIDIAETH YSGOL</b>	Mae'r trefniadau cludiant yn unol â'r gyfraith a pholisi'r Cyngor Sir.

### **GWYBODAETH ADEILADU**

**PENSEIRI:** Cyngor Sir Penfro – mewnol

**CONTRACTWYR:** Andrew Scott Cyf.

**COST CYFALAF:** £8.87 miliwn

**DYDDIAD CWBLHAU:** Awst 2016

**MANYLEBAU'R ADEILADAU:** Mae Hafan y Môr yn gynnyrch o waith adnewyddu ac addasiadau helaeth i hen Ysgol Iau Dinbych-y-pysgod. Fe wnaeth y cynllun ailfodelu'r gosodiad presennol i gynnig y gofod mwy addas ac ymarferol sy'n ofynnol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar a chylch chwarae/ystafell cymunedol; yn ogystal, uwchraddiwyd cyfleusterau'r babanod a'r disgyblion iau.

Cafodd technolegau eu uwchraddio, gan gynnwys darparu band eang ffibr optig i greu amgylchedd dysgu sy'n cyd-fynd ag ethos ysgolion yr 21ain ganrif.

Yn allanol, cafodd ardaloedd ei addasu gan gynnwys canopi newydd, ynghyd â ardaloedd chwarae ar wahân fel y gall y plant iau chwarae mewn amgylchedd diogel.

Adeiladwyd Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Dinbych-y-pysgod ar gae gerllaw Hafan y Môr. Mae'r adeilad newydd yn isel ac yn cydweddu â gweddill yr ysgol sydd gerllaw, a adeiladwyd yn y 70au. Pan fydd y gwaith tirlunio wedi ei sefydlu, bydd y datblygiad yn teimlo fel 'campws'. Defnyddiwyd deunyddiau cadarn ac o ansawdd uchel i adeiladu'r ysgol – briciau glas-ddu a briciau gwydrog, rendro, toeon wedi'u gorchuddio â dur gloyw a ffenestri alwminiwm – sy'n golygu bydd yr adeilad yn gallu gwrthsefyll yr amgylchedd arfordirol garw. Dewiswyd y lliwiau 'hufen iâ' gan y rhanddeiliaid i adlewyrchu'r hyn sy'n arbennig am yr ysgol a'r lleoliad, a phleidleisiodd y plant dros eu hoff liwiau ar gyfer y prif fynedfeydd.

Llywiwyd athroniaeth y dyluniad gan ddylunio goddefol, ac mae'r dosbarthiadau, sy'n cynnwys systemau croes-awyru naturiol lefel uchel ac isel, wedi cael eu trefnu er mwyn osgoi gordwymo. Mae adenydd y dosbarthiadau'n cynnwys toeon ar oleddf gyda tho gwastad wedi'i osod dros y corridor a'r parth byrddau gwyn sy'n cynnwys paneli solar. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gallu gweld beth sy'n cynhyrchu'r pŵer yn eu dosbarthiadau o'u desgiau, trwy edrych trwy'r ffenestri claueruchdwr.

Mae'r ysgol yn cynnwys cylch meithrin, tri dosbarth blynyddoedd cynnar/derbyn, tri Cyfnod Sylfaen a chwe dosbarth CA2. Yn ogystal, mae'r adeilad yn cynnwys canolfan adnoddau dysgu i blant iau a babanod, ynghyd â llyfrgell, ystafell dechnoeg ac ystafell synhwyraidd.